ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working
www.erw.cymru
www.erw.wales

**Cyd-bwyllgor ERW**
**Dydd Llun 17 Gorffennafd 2017**
**Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin**
**2.00-3.50pm**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ellen Ap Gwynn [Cadeirydd]

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Emlyn Dole | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Y Cynghorydd David Simpson | Cyngor Sir Penfro |
| Y Cynghorydd Rosemarie Harris | Cyngor Sir Powys |
| Y Cynghorydd Jennifer Raynor | Dinas a Sir Abertawe |
| Y Cynghorydd Peter Rees | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Y Cynghorydd Myfanwy Alexander | Cyngor Sir Powys |
| Mr Mark James | Prif Weithredwr Arweiniol ERW |
| Ms Bronwen Morgan | Cyngor Sir Ceredigion |
| Mr Ian Westley | Cyngor Sir Penfro |
| Mr Jeremy Patterson | Cyngor Sir Powys |
| Mr Aled Evans | Cyfarwyddwr Arweiniol ERW |
| Ms Betsan O'Connor | Rheolwr Gyfarwyddwr ERW |
| Mr Jonathan Haswell | Cyngor Sir Penfro<br>(Swyddog A151 ERW) |
| Ms Elin Prysor | Cyngor Sir Ceredigion<br>(Swyddog Monitro ERW) |
| Mr Ian Budd | Cyngor Sir Powys |
| Ms Chris Sivers | Dinas a Sir Abertawe |
| Ms Jo Hendy | Cyngor Sir Penfro<br>(Pennaeth Archwilio Mewnol ERW) |
| Mr Ian Eynon | Cyngor Sir Penfro<br>(Dirprwy Swyddog A151 ERW) |
| Mr Steve Davies | Llywodraeth Cymru |
| Ms Katie Morgan | ERW |
| Ms Catherine Gadd | Cyngor Sir Caerfyrddin<br>(Gwasanaethau Democrataidd) |

1. **PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

**Cytunwyd ar y canlynol:**
(i) **Penodi'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn yn Gadeirydd;**
(ii) **Penodi'r Cynghorydd Emlyn Dole yn Is-gadeirydd.**

2. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Rob Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot), y Cynghorydd Rob Stewart (Dinas a Sir Abertawe), Mr Steven Phillips (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) a Mr Phil Roberts (Dinas a Sir Abertawe).

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol. Rhoddwyd ffurflenni i aelodau'r Cyd-bwyllgor er mwyn iddynt ddiweddaru eu buddiannau personol, a gofynnodd Rheolwr Gyfarwyddwr ERW iddynt ddychwelyd y ffurflenni, wedi'u llenwi, i ERW.

**CYTUNWYD y byddai aelodau'r Cyd-bwyllgor yn dychwelyd eu Ffurflenni Buddiannau Personol, wedi'u llenwi, i ERW.**

4. **COFNODION – 20 CHWEFROR 2017**

**CYTUNWYD i lofnodi'n gywir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2017.**

5. **Y GOFRESTR RISGIAU**

Rhoddwyd copi o'r Gofrestr Risgiau i'r Cyd-bwyllgor, a oedd yn tynnu sylw at y prif risgiau yn y meysydd Corfforaethol, Ariannol a Gwella Ysgolion, gan alluogi ERW i leihau'r potensial o risgiau lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Nodwyd y byddai'r gofrestr risgiau yn cael ei hailfformatio i'w gwneud yn fwy clir ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Amlygodd Rheolwr Gyfarwyddwr ERW y ddwy risg allweddol a nodwyd yn y Gofrestr Risgiau Ganolog. Yn gyntaf, gallu'r rhanbarth i ymateb i ofynion posibl y Model Cenedlaethol a'r Papur Gwyn diwygiedig – Diwygio Llywodraeth Leol. Yn ail, y llythyrau a ddaeth i law gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn amlinellu'r disgwyliadau o ran sut y dylai ERW fod yn defnyddio ei Grant Amddifadedd Disgyblion 2017-2018: Cymorth i blant sy'n derbyn gofal, yn ysbryd y telerau ac amodau, fel y manylir arnynt yn yr adroddiad.

Nodwyd bod y gofrestr risgiau ar gyfer Ceredigion yn eisiau o'r adroddiad. Byddai'r swyddogion yn sicrhau ei bod yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor a'i chynnwys mewn papurau yn y dyfodol.

**CYTUNWYD bod y gofrestr risgiau yn cael ei derbyn a'i chymeradwyo.**

## 6. DIWEDDARIAD GAN Y CYFARWYDDWR ARWEINIOL A'R RHEOLWR GYFARWYDDWR

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Arweiniol a Rheolwr Gyfarwyddwr ERW adroddiad ar lafar i'r Cyd-bwyllgor ar weithgareddau. Gofynnodd y Cadeirydd am gael adroddiad ysgrifenedig ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Nodwyd bod gwybodaeth fanwl am adborth gan Benaethiaid wedi'i chynnwys mewn adroddiad diweddarach.

Rhoddodd Rheolwr Gyfarwyddwr ERW yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y datblygiadau cenedlaethol i wella sgoriau PISA. Roedd gan bob rhanbarth gynrychiolydd ar grŵp cenedlaethol a oedd yn arwain y gwaith hwn. Nodwyd bod ysgolion yn gwbl ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael iddynt wrth baratoi ar gyfer y profion PISA. Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr adnoddau hyn hefyd yn ddefnyddiol o ran paratoi ar gyfer arholiadau TGAU, gan eu bod yn cwmpasu'r un set o sgiliau. Nodwyd bod dau Bennaeth o'r rhanbarth wedi cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith hwn. Jackie Parker, Pennaeth Ysgol Crucywel ym Mhowys, i gefnogi pob ysgol yn ERW; a Heather Lewis o Ysgol y Strade, i gefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg yn benodol, ledled Cymru, gan fod y data'n awgrymu y gallai anomaleddau fodoli o ran data PISA ar gyfer ysgolion Cymraeg. Cadarnhawyd bod Prif Weinidog Cymru yn dal yn ymrwymedig i'r targedau ar gyfer PISA.

Darparwyd diweddariad ar y trefniadau ar gyfer drafftio'r Model Cenedlaethol newydd. Eglurwyd y bu oedi o ran y gwaith ar y prosiect hwn oherwydd yr etholiadau a rhwystrau eraill, ac na fyddai'n dechrau tan dymor yr hydref.

Rhoddodd Rheolwr Gyfarwyddwr ERW adborth ar ganlyniadau'r arholiadau TGAU. Nodwyd y disgwylid i'r gofynion newydd ar gyfer y cwricwlwm TGAU arwain at set ddata newydd na fyddai'n debyg i flynyddoedd blaenorol. Newidyn arall a drafodwyd oedd rhoi mynediad cynnar i ddisgyblion i arholiadau. Gofynnodd yr aelodau pam yr oedd hyn yn effeithio ar y canlyniadau, gan na ddylai disgyblion gael mynediad cynnar oni bai eu bod yn barod i sefyll yr arholiadau. Eglurwyd bod llawer mwy o ddisgyblion blwyddyn 10 yn cael mynediad cynnar, a bod hyn yn effeithio ar gyflawniad y cohort. Nodwyd mai'r flaenoriaeth oedd y deilliannau gorau posibl ar gyfer y dysgwyr, ac y gallai mynediad cynnar i arholiad arwain at ddisgyblion yn cael gradd is na phe byddent wedi cwblhau'r cwrs llawn. Yn ogystal, nid oedd y disgyblion hynny a oedd wedi cael gradd C bob amser yn cael eu hailgofrestru ar gyfer yr arholiad er mwyn cael y deilliant gorau posibl. Eglurodd y Cyfarwyddwr Arweiniol fod trafodaethau wedi cael eu cynnal â Chyfarwyddwyr Addysg a sefydliadau Addysg Bellach ynghylch y mater hwn. Mynegwyd pryderon ynghylch Estyn yn gwneud dyfarniadau ar ysgolion yn ystod y cyfnod hwn, heb lwyr ystyried y newidiadau i'r safonau. Nodwyd nad oedd sgwrs ffurfiol wedi cael ei chynnal, ond bod Estyn yn ymwybodol o'r anghysondeb hwn. Cytunwyd y byddai adroddiad ar fynediad cynnar, yn cynnwys data rhanbarthol, yn cael ei roi gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr ERW wrth y Pwyllgor y byddai'r Hunanasesiad wedi ei gwblhau erbyn diwedd y mis. Roedd yr adroddiad yn broses flynyddol a

oedd yn dwyn ynghyd brif ganfyddiadau nifer o ffynonellau o ran gweithgareddau gwerthuso a sicrhau ansawdd yn ystod y flwyddyn. Nodwyd y byddai'r prif themâu yn cynnwys:

- Yr amrywiad yng ngwaith yr Ymgynghorwyr Her o un Awdurdod Lleol i'r llall.
- Y gwahaniaethu rhwng Awdurdodau Lleol o ran y ffordd yr oeddent yn darparu agweddau ar gefnogaeth i ysgolion.
- Gwaith Tîm Canolog ERW, o ran blaenoriaethau cenedlaethol allweddol, yn cae ei ddatblygu gan Staff yr Awdurdod Lleol; roedd hyn yn effeithio ar werth am arian.

Nodwyd bod ERW wedi trefnu cyfarfodydd briffio ag Aelodau o'r chwe Awdurdod Lleol, i roi diweddariad ar waith y consortiwm, a fyddai'n arbennig o fanteisiol i aelodau newydd. Nodwyd bod cyfathrebu da ledled y rhanbarth yn ffactor allweddol er mwyn i ERW weithio'r effeithlon.

Nodwyd bod y cydweithredu rhanbarthol â rhanbarthau eraill yn faes cryfder. Cafodd dau ddarn allweddol o waith eu hamlygu'n benodol, sef yr Academi Arweinyddiaeth ac ymgyrch i leihau llwyth gwaith athrawon. Eglurodd y Cyfarwyddwr Arweiniol fod arweinyddiaeth a datblygiad proffesiynol yn y rhanbarth yn cael sylw, a bod yr Academi Arweinyddiaeth yn rhaglen genedlaethol i sicrhau bod cymorth cydlynol a chyson ar gael ledled y pedwar rhanbarth. Mynegwyd pryderon gan yr Aelodau ynghylch y gwahaniaethau yn ansawdd y cymorth a ddarperid, ac o ran atal dyblygu. Esboniwyd y byddai'r Academi Arweinyddiaeth yn darparu mwy o gysondeb i gefnogi arweinyddiaeth ar amrywiaeth o lefelau, ac y byddai wedi'i thrwyddedu i sicrhau'r safon gywir. Eglurwyd mai'r amserlen ar gyfer datblygu'r gwaith hwn fyddai sicrhau bod cynnig cyffredin o ran agweddau ar arweinyddiaeth ar gael ym mhob rhanbarth erbyn mis Medi 2017, a bod rhaglen lawn ar waith erbyn mis Medi 2018.

Nodwyd y byddai Estyn yn arolygu ERW yn ystod yr wythnos yn dechrau 13 Tachwedd 2017. Byddai gwybodaeth ar gael i'r Aelodau yn ystod yr wythnos yn dechrau 18 Medi 2017.

**CYTUNWYD ar y canlynol:**

**(i) bod yr adroddiad wedi dod i law ac wedi cael ei dderbyn;**

**(ii) y byddai adroddiad ar Fynediad Cynnar a Pherfformiad Cyfnod Allweddol 4, yn cynnwys data rhanbarthol, yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyd-bwyllgor yn y dyfodol.**

## 7. LLYTHYR GAN Y PWYLLGOR CRAFFU

Dywedwyd wrth y Cyd-bwyllgor fod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion pwyllgorau craffu pob un o'r chwe Awdurdod Lleol wedi cynnal eu cyfarfod chwemisol yng Ngheredigion, a hynny ar 27 Chwefror 2017. Daeth y casgliadau a'r argymhellion o'r cyfarfod i law y Pwyllgor.

Roedd y pynciau a drafodwyd yn ystod y cyfarfod yn cynnwys Rheoli Perfformiad, Categoreiddio Ysgolion, Arolygiad Estyn o ERW, yr ymgyrch i recriwtio athrawon, Addysg Ddewisol yn y Cartref a Llywodraethiant Ysgolion. Nodwyd y byddai'r grŵp yn croesawu ymateb i unrhyw un o'r pwyntiau a godwyd. Yn benodol, roeddent wedi amlygu y byddent yn falch o gael ymateb gan y Cyd-bwyllgor ynghylch pam

nad oedd gan rai Awdurdodau Lleol y cwota llawn cytunedig o Ymgynghorwyr Her, a pha gamau oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.

Gofynnodd Aelodau'r Cyd-bwyllgor am i adroddiad ar y cwota o Ymgynghorwyr Her gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor, cyn ymateb i'r ymholiad penodol hwnnw.

**CYTUNWYD ar y canlynol:**

**7.1 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn;**

**7.2 y byddai adroddiad ar y cwota o Ymgynghorwyr Her yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Cyd-bwyllgor;**

**7.3 bod ymateb yn cael ei ddrafftio i'r pwyntiau a godwyd gan y Grŵp.**

## 8. DATGANIAD O GYFRIFON ERW AR GYFER 2016-17

Eglurodd Swyddog Adran 151 ERW nad oedd Swyddfa Archwilio Cymru eto wedi llunio'r Archwiliad o'r Adroddiad ar y Datganiadau Ariannol (ISA 260), ac felly bod yn rhaid tynnu'r adroddiad yn ôl o'r cyfarfod. Nodwyd y byddai angen llofnodi'r Datganiad o Gyfrifon erbyn 30 Medi 2017, a gofynnwyd am gael cyfarfod ychwanegol o'r Cyd-bwyllgor yn ystod mis Medi, i ystyried yr adroddiad hwn.

**Cytunwyd ar y canlynol:**

**8.1 bod yr adroddiad yn cael ei dynnu'n ôl o gyfarfod y diwrnod hwnnw;**

**8.2 bod cyfarfod ychwanegol o'r Cyd-bwyllgor yn cael ei drefnu ar gyfer mis Medi 2017.**

## 9. DIWEDDARIAD ARIANNOL ERW – CHWARTER 1 2017-18

Cafodd y Pwyllgor wybod am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf ar gyfer blwyddyn 2017-18. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cyllidebau dangosol drafft ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018-19 a 2019-20, y cronfeydd wrth gefn a oedd ar gael i ranbarth ERW yn ystod y tair blynedd nesaf, lefel ddisgwyliedig cyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18, a gwybodaeth am nifer, rolau a chost y staff ar secondiad o'r ysgolion a'r Awdurdodau Lleol cyfansoddol. Nodwyd bod nifer y secondiadau yn risg i'r gwaith o drefnu'r tîm canolog rhanbarthol yn effeithiol.

Eglurwyd bod newidiadau wedi cael eu gwneud i'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu gwir gost ERW, a bod costau bellach yn cael eu hadennill yn llawn. Nodwyd bod rolau'r swyddogion arweiniol yn dal i gael eu darparu'n rhad ac am ddim gan y rhanbarthau.

Nodwyd bod yr oedi o ran cadarnhau a thalu grantiau yn risg i'r rhanbarth. Eglurodd y Swyddog Adran 151 bod yna randaliadau terfynol sylweddol o grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 nad oeddent wedi dod i law o hyd. Roedd hyn yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar y bancer arweiniol ar gyfer y rhanbarth, a hynny ar adeg pan oedd Awdurdodau Lleol o dan bwysau ariannol cynyddol. Nodwyd y byddai arian ERW wedi darfod pe byddai ganddo ei gyfrif banc ei hun. Eglurwyd bod Adran Addysg Llywodraeth Cymru wedi bod yn destun ailstrwythuro sylweddol, a bod hyn yn cynnwys cyllido. Dylai newidiadau o'r fath wella'r sefyllfa o ran talu grantiau mewn pryd, a byddai'r Pwyllgor yn gallu barnu'r flwyddyn ganlynol a fyddai gwelliannau wedi cael eu gwneud.

Nodwyd bod blaengynllunio yn anodd heb syniad bras o ddyraniad arian y grantiau dros gyfnod hirach. Nodwyd bod Gweinidogion Cymru yn ymwybodol o'r pryderon hyn, a'u bod yn ymchwilio i sut i fynd i'r afael â nhw.

Eglurodd y Swyddog Adran 151 y sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn, ac y byddai'r gyllideb ddisgwyliedig ar gyfer y tair blynedd nesaf yn arwain at wagio'r cronfeydd wrth gefn. Cytunodd y Pwyllgor i adolygiad ariannol gael ei gynnal.

**CYTUNWYD ar y canlynol:**

**9.1 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn, a bod diweddariad ariannol ERW ar gyfer Chwarter 1 2017-18 yn cael ei nodi;**

**9.2 bod y newidiadau i Gyllideb Refeniw Tîm Canolog ERW a chronfeydd wrth gefn ar gyfer 2017-18 a'r blynyddoedd i ddod, yn cael eu cymeradwyo;**

**9.3 bod swm sylweddol yr incwm grant a oedd yn ddyledus i'r rhanbarth yn ystod y flwyddyn ariannol honno yn cael ei nodi, ond mynegwyd pryder bod llythyrau cynnig terfynol yn dal heb ddod i law;**

**9.4 bod y risg sylweddol i'r rhanbarth, yn wyneb yr ansicrwydd a oedd yn parhau ynghylch cymeradwyo sawl ffrwd cyllid grant, yn cael ei nodi;**

**9.5 bod y risg sylweddol i'r rhanbarth, yn wyneb swm y cyllid craidd y mae'n ei gael, ynghyd â'r effaith ar gronfeydd wrth gefn y rhanbarth yn y tymor canolig, yn cael ei nodi;**

**9.6 bod adolygiad ariannol llawn yn cael ei gynnal o'r grantiau a'r cyllid craidd.**

## 10. BARN SICRWYDD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL CONSORTIWM ERW ar gyfer 2016-17

Cafodd y Cyd-bwyllgor Farn Sicrwydd Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016-17 o ran effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheolaeth fewnol, rheoli risgiau a rheolaeth ariannol ERW. Nodwyd bod y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2016-17 wedi cael ei gyflwyno yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni gan y Pwyllgor. Roedd y rhaglen sicrhau ansawdd a gwella yn cadarnhau cydymffurfiaeth â gofynion gorfodol. Rhoddwyd sicrwydd sylweddol o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith. Nodwyd bod yna gyfleoedd ar gyfer gwella a oedd yn cael eu disgrifio'n fwy manwl yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol.

**CYTUNWYD bod Barn Sicrwydd Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016-17 yn cael ei nodi.**

## 11. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CONSORTIWM ERW ar gyfer 2016-17

Eglurodd y swyddogion fod cysylltiad rhwng yr adroddiad a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Rhanbarthol diwygiedig a, chan fod angen gwneud mwy o waith ar y Cod, gofynnwyd am gael tynnu'r eitem hon yn ôl o'r cyfarfod. Cytunwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod ychwanegol o'r Cyd-bwyllgor ym mis Medi 2017.

**Cytunwyd bod yr adroddiad yn cael ei dynnu'n ôl o'r cyfarfod a'i gyflwyno yn y cyfarfod ychwanegol o'r Cyd-bwyllgor.**

## 12. ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL CONSORTIWM ERW 2016-17

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor Adroddiad Archwilio Mewnol Consortiwm ERW ar gyfer 2016-17, a oedd yn rhoi sicrwydd o ran effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, rheolaeth fewnol, rheoli risgiau a rheolaeth ariannol. Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol wrth y Pwyllgor ei bod yn bosibl rhoi sicrwydd sylweddol o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau a oedd ar waith. Fodd bynnag, roedd yna sawl cyfle i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau a oedd yn bodoli. Nodwyd bod cynllun gweithredu wedi cael ei lunio i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adolygiad.

O ran cymorth i ysgolion, eglurwyd nad oedd y cymorth a ddarperid bob amser yn unol â'r gwelliannau a nodwyd, ac nad oeddid bob amser yn cyrraedd y targedau. Nodwyd bod y Pwyllgor eisoes wedi gofyn am wybodaeth am leoli Ymgynghorwyr Her, a chytunwyd i'r adroddiad gael ei estyn i gynnwys ansawdd a pherfformiad yr Ymgynghorwyr. Eglurodd Rheolwr Gyfarwyddwr ERW y byddai'n adrodd yn ôl gyda'r wybodaeth a oedd ar gael am berfformiad yr Ymgynghorwyr Her a'r safonau a ddisgwylid. Nodwyd y gallai rhanbarthau eraill symud ymlaen yn gynt â'r gwaith hwn gan mai'r consortia oedd rheolwyr llinell uniongyrchol yr Ymgynghorwyr Her; nid oedd hyn yn wir yn achos ERW.

Nodwyd yn yr adroddiad nad oedd y cymorth rhwng ysgolion yn cael ei ddatblygu'n gyson. Tynnwyd sylw at y ffaith bod rhannu arfer da rhwng ysgolion yn ddefnyddiol iawn, a darparwyd sawl enghraifft o hyn. Eglurwyd bod adborth hefyd yn cael ei roi i'r ysgolion hynny a oedd yn rhannu arfer da.

**CYTUNWYD ar y canlynol:**

**12.1 bod Adroddiad Archwilio Mewnol ERW ar gyfer 2016-17 yn cael ei nodi;**

**12.2 bod yr adroddiad ar y cwota o Ymgynghorwyr Her yn cael ei estyn i gynnwys ansawdd, perfformiad a lleoliad yr ymgynghorwyr a'r staff cymorth, ynghyd ag argymhellion o ran sut i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol.**

## 13. Y COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL RHANBARTHOL

Nodwyd bod angen gwneud mwy o waith ar y Cod Llywodraethu Corfforaethol Rhanbarthol, a gofynnwyd am i'r adroddiad gael ei dynnu'n ôl o'r cyfarfod. Cytunwyd y byddai'n cael ei gyflwyno i'r cyfarfod ychwanegol o'r Cyd-bwyllgor a oedd yn cael ei drefnu ar gyfer mis Medi 2017.

**Cytunwyd bod yr adroddiad yn cael ei dynnu'n ôl a'i gyflwyno i'r cyfarfod ychwanegol o'r Cyd-bwyllgor.**

## 14. GWERTH AM ARIAN

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad diweddaru ar y rhaglen waith drefnedig o ran adolygiadau gwerth am arian ar gyfer 2017-18. Amlinellodd y swyddogion fod y fframwaith yr oedd y Pwyllgor wedi cytuno arno'n flaenorol yn cynnwys saith agwedd allweddol, a bod yr adroddiad yn cynnwys diweddariad o'r cynnydd ar ddau linyn penodol, sef cymharu â rhanbarthau eraill a defnydd cynyddol o weithio digidol.

Eglurwyd bod sawl gweithgor gwahanol wedi cael eu sefydlu, a'u bod yn gweithio ar lefel gydweithredol ryngranbarthol i gymharu strategaethau, i ddysgu oddi wrth ei gilydd, ac i gynhyrchu deilliannau cadarnhaol yn y rhanbarth. Er enghraifft, roedd y grŵp cyllid wedi cwrdd i drafod strwythurau, adnoddau, modelau ariannu ac arfer gorau. Roedd rhannu arfer gorau a ffurfio fframwaith cyffredin wedi sicrhau bod y consortia yn gallu cynnal agwedd effeithiol at newid gan, ar yr un pryd, leihau defnydd unigolion o adnoddau a chyfyngu ar ddyblygu. Roedd Rheolwr Prosiectau Consortia wedi cael ei benodi, ac roedd hyn eto yn gwella gallu ERW i gymharu â rhanbarthau eraill ac i weithio'n gydweithredol. Nodwyd bod lefel uwch o gysondeb wedi bod yn amlwg wrth ddelio â Llywodraeth Cymru, a'r nod oedd parhau i sicrhau cyfarfodydd rheolaidd rhwng y grŵp a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. Mynegwyd peth pryder y byddai hyn yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried y grŵp yn sefydliad cenedlaethol. Eglurwyd bod y grŵp yn deall ei rôl o ran gweithio ar y cyd, a bod llinynnau rhanbarthol clir yn bodoli. Nodwyd pwysigrwydd cydnabod beth oedd yn gweithio'n effeithiol.

Tynnwyd sylw at y ffaith y bu cynnydd yn y defnydd o weithio digidol o ran teithio, cynhaliaeth, deunyddiau ysgrifennu a gweinyddiaeth. Rhoddwyd enghreifftiau o effaith gadarnhaol y gwaith hwn, a oedd wedi arwain at fwy o allu a phrosesau integredig.

**CYTUNWYD bod y diweddariad ar werth am arian yn cael ei nodi, a bod y rhaglen waith drefnedig ar gyfer gwerth am arian yn cael ei nodi.**

## 15. ADRODDIAD GWERTHUSO Y PENAETHIAID

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor adroddiad Gwerthuso y Penaethiaid, a oedd yn dadansoddi cyfweliadau â Phenaethiaid y rhanbarth, yn ogystal â holiaduron ar-lein, ynghylch eu canfyddiad o ERW a'r rôl y mae'n ei chwarae ym mywyd eu hysgol o ddydd i ddydd.

Eglurodd Rheolwr Gyfarwyddwr ERW fod holiadur y Penaethiaid mewn blynyddoedd blaenorol wedi bod yn darparu llun o adborth a oedd yn gwella, ond nad oedd hyn wedi bod yn gyson â thrafodaethau parhaus â Phenaethiaid a rhanddeiliaid eraill. Roedd ERW wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol, mwy manwl, i gefnogi canfyddiadau'r holiadur.

Roedd yr adborth o'r gwaith hwn wedi dangos nad oedd meysydd allweddol o waith y rhanbarth yn gwella yn ddigon cyflym.

Roedd y negeseuon allweddol fel a ganlyn:

- Anghysondeb o ran ansawdd y cymorth a'r her gan yr Ymgynghorwyr Her.
- Roedd y trosiant Ymgynghorwyr Her ar gyfer pob ysgol yn rhwystr i ddilyniant.
- Yr anghysondeb mewn canfyddiadau ledled y rhanbarth o ran beth oedd swyddogaethau ERW, ac yn benodol pan fyddai ymgynghorwyr a gyflogid gan yr Awdurdod Lleol yn ymgysylltu ag ysgolion.
- Fel rhanbarth, nid oedd ERW yn symud ar hyd y continwwm gwella ysgolion yn ddigon cyflym. Roedd hyn yn arwain at fwy o angen i rannu arfer da a gwaith ysgol i ysgol.

Nodwyd bod angen mwy o gysondeb o ran cymorth ysgol i ysgol ac o ran meithrin hyder ysgolion mewn gwasanaethau gwella ysgolion.

Eglurwyd bod Tîm Canolog ERW, erbyn mis Medi, wedi paratoi'r gwelliannau canlynol o ran cyfathrebu:

- Gwefan newydd, a ddylai arwain at well cyfathrebu ag ysgolion.
- Gwybodaeth benodol i'w hanfon trwy e-bost at Benaethiaid.
- Byddai gwybodaeth fwy cyffredinol yn cael ei dosbarthu trwy gylchlythyr ERW.
- Byddai gan bob ysgol ddewislen cymorth, roedd dysgu proffesiynol ar gael i sicrhau gwelliant yn y modd yr oedd anghenion yn cael eu bodloni, ac roedd yna well paratoi ar gyfer ymweliadau craidd.

Nododd yr Aelodau y dyfyniadau a'r sylwadau yn yr adroddiad a oedd yn amlygu'r pwysau ar Benaethiaid a'r swm cynyddol o waith papur. Nodwyd bod y pedwar rhanbarth yn cydweithio ar adnodd i Leihau Llwyth Gwaith Athrawon ar gyfer mis Medi.

**CYTUNWYD bod Adroddiad Gwerthuso y Penaethiaid yn cael ei dderbyn.**

## 16. Y MODEL CLWSTWR

Daeth adroddiad i law'r Cyd-bwyllgor ar y datblygiadau allweddol angenrheidiol i gyflawni Cynllun Busnes a Strategaeth ERW ac ymateb i flaenoriaethau allweddol y Llywodraeth, yn ogystal â gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn y rhanbarth. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar fecanwaith cyflawni allweddol ar gyfer darparu cymorth i ysgolion a rhwng ysgolion.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai ERW yn ariannu pob clwstwr i gyflogi Arweinydd Dysgu, er mwyn cefnogi pob ysgol i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu, a gwella gallu arweinwyr ledled y clwstwr. Nodwyd bod y gwaith yn adeiladu ar arfer gorau o waith Arweinwyr Dysgu cyfredol mewn ysgolion uwchradd, a gwaith rhanbarthau eraill o ran ariannu cydweithio.

Holodd yr Aelodau am y risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r gost gynyddol ar gyfer gwaith clwstwr, ac eglurwyd mai secondiadau mewn blynyddoedd i ddod, ac oedi o ran cadarnhau a thalu grantiau oedd y risgiau. Mynegwyd pryder ynghylch

bodloni gofynion ieithyddol mewn rhai clystyrau, a chadarnhawyd y byddai'r dyraniad sgiliau yn bodloni angen. Yn ogystal, nodwyd bod anghenion pob clwstwr o ran cymorth wedi cael eu mapio yn erbyn anghenion, a bod Pennaeth cyswllt wedi cael ei benodi i gefnogi pob rhwydwaith.

Gofynnwyd a oedd y gallu ar gael i lenwi swyddi'r Arweinwyr Dysgu, gan fod y rhanbarth yn cael trafferth recriwtio Ymgynghorwyr Her. Nodwyd bod athrawon brwdfrydig, hynod fedrus, wedi dangos diddordeb, a'u bod, mae'n debyg, o'r safon gywir ac yn ystyried y newidiadau i'r cwricwlwm yn gyfle da. Nodwyd hefyd mai'r Awdurdod Lleol, ac nid ERW yn ganolog, oedd yn gwneud y gwaith o recriwtio Ymgynghorwyr Her.

**CYTUNWYD ar y canlynol:**

**16.1 bod yr Adroddiad ar y Model Clwstwr yn cael ei dderbyn;**

**16.2 bod y gwaith o ddatblygu rhwydweithiau Addysgu a Dysgu ledled y rhanbarth yn cael ei gymeradwyo.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**